# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 20 Mawrth 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cydbwyso Galwadau

**C5 Jocelyn Davies:** Sut y bydd y Cynulliad yn parhau i gydbwyso galwadau datblygu cynaliadwy, economi wledig sydd yn gweithio, a diogelu iechyd a bwyd? (OAQ10418) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** O ran bwyd, mae diogelwch y cyhoedd, a'r rhai sydd yn gweithio gyda bwyd, yn parhau i fod yn sylfaenol bwysig ac mae hynny, wrth gwrs, yn gwbl gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yr ydym yn gweithio i sicrhau bod economi wledig Cymru'n datblygu'n gynaliadwy, gydag amaeth anarddwys o ansawdd da wrth ei chalon.

*Atebwyd cwestiynau 6 i 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Lleihau'r Ddyled Ryngwladol

**C9 Elin Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y trafodaethau rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cymorth gan Gymru i leihau'r ddyled ryngwladol? (OAQ10415) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd ac yr ydym yn trafod ystod eang o faterion. Mae'n ymwybodol iawn bod y Cynulliad yn cefnogi ymdrechion y Llywodraeth i leihau dyled ryngwladol.

*Atebwyd cwestiwn 10 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Cydlynu Polisïau (Partneriaeth â Busnes)

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar unrhyw drafodaethau rhyngddo ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chydweithwyr yn San Steffan ar gydlynu polisïau sydd yn ymwneud â phartneriaethau â busnes? (OAQ10387)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae fy nghyd-Aelodau a'm swyddogion yn ceisio'n barhaus i fabwysiadu cysylltiadau gweithio agos â'u cydweithwyr yn Whitehall. Mae'r concordatau y mae'r Cabinet wedi cytuno ag adrannau Whitehall arnynt yn adlewyrchu'r egwyddorion y mae eu hangen wrth wraidd y cysylltiadau hynny, ac mae hynny'n cynnwys cydlynu'r polisïau sydd yn ymwneud â phartneriaethau â busnes. Yr wyf hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Hynt Polisi a Strategaeth

**C12 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar hynt diweddar polisi a strategaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng ngogledd Cymru? (OAQ10408) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Polisi Rhyngwladol

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gryfder y berthynas rhwng Cymru, y Deyrnas Unedig a gweddill yr Undeb Ewropeaidd o ran polisi rhyngwladol? (OAQ10411) ***Tynnwyd yn ôl***

## Rhaglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth

**C14 Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cyflwyno i San Steffan yn ddiweddar ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth? (OAQ10386)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn trafod ystod eang o faterion ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd, gan gynnwys rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Fel y dywedais sawl gwaith, dylai pob Mesur perthnasol gan y Llywodraeth roi digon o bwerau i'r Cynulliad iddo allu datblygu polisïau sydd yn diwallu anghenion Cymru.

## Hybu Cyfranogiad Cymunedol

**C15 Dafydd Wigley:** Pa fesurau y mae Prif Weinidog Cymru'n eu defnyddio i sicrhau bod cyfranogiad cymunedol yn cael ei hybu ym maes polisi amgylcheddol, polisi diwylliant a pholisi cymdeithasol? (OAQ10410) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cymorth Cymdeithasol ac Economaidd i Gymunedau

**C16 Cynog Dafis:** Yn rhinwedd ei rôl fel cydlynydd datblygiad polisi, beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i sicrhau bod cymunedau sydd angen y cymorth cymdeithasol ac economaidd mwyaf yn ei dderbyn? (OAQ10413) ***Tynnwyd yn ôl.***

## 'Variable Geometry UK'

**C17 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn dilyn ei araith 'Variable Geometry UK' ar 14 Chwefror 2000? (OAQ10419) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Effaith yr Iaith Gymraeg ar Bolisi'r Cynulliad

**C18 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y ffordd y mae'r iaith Gymraeg yn effeithio ar bob un o feysydd polisi'r Cynulliad, gan gynnwys gofal iechyd, addysg a datblygu economaidd? (OAQ10420) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Ymweliadau ag Ynys Môn

**C19 Peter Rogers:** Sawl gwaith y mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld ag Ynys Môn ers iddo ymgymryd â'i gyfrifoldeb arbennig dros ogledd Cymru? (OAQ10405) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Ffordd yr A49-A5

**C20 Ann Jones:** Pa asesiad y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i wneud ynghylch pwysigrwydd ffordd yr A49-A5 i ogledd Cymru o ran datblygu polisi'r Cynulliad ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ10406) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Datblygu Isadeiledd Cymreig

**C21 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch hynt y gwaith o ddatblygu isadeiledd Cymreig sydd wedi ei gydlynu'n well ac sydd yn fwy cynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau lleol a chreu economi ffyniannus fel yr amlinellwyd yn 'Gwellcymru.com'? (OAQ10416) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Oedolion y mae eu Hiechyd yn Amharu ar Weithgareddau Cymdeithasol Dyddiol

**C22 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y mae'r Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion iechyd, gofal cymdeithasol, a chynhwysiant cymdeithasol, yn bwriadu helpu'r 40 y cant o oedolion yng Nghymru y mae eu hiechyd yn amharu ar eu gweithgareddau cymdeithasol dyddiol? (OAQ10412) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C23 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn dilyn ei gyfarfod diwethaf yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru ar 28 Chwefror 2001? (OAQ10421)

**Prif Weinidog Cymru:** Ar 28 Chwefror, cyfarfum â'r Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel i drafod ymatebion dichonol i sefyllfa swyddi Corus. Yn ogystal â chyfarfod swyddogion y Cynulliad, cyfarfum â Chynrychiolydd Parhaol y DU i'r Undeb Ewropeaidd i drafod ystod o faterion. Yn ogystal, ymwelais â swyddfeydd yr Awdurdod Twristiaeth Prydeinig i drafod hybu Cymru yng Ngwlad Belg. Cyn dychwelyd i Gaerdydd, anerchais y derbyniad Gŵyl Dewi Sant blynyddol yn Senedd Ewrop, a drefnwyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru.

### Clwy'r Traed a'r Genau

**C24 Mick Bates:** Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i sicrhau bod holl wasanaethau cyhoeddus Cymru'n parhau i fod ar gael yn ystod y cyfyngiadau a gyflwynir yn sgîl clwy'r traed a'r genau? (OAQ10402)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae cyngor wedi'i ddarparu yn unol â'r angen i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng rheoli'r clwyf a sicrhau bod gweithredoedd dilys yn parhau.

### Datblygu Cysylltiadau Agosach rhwng Cymru ac Ewrop

**C25 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch yr ymdrechion diweddar i ddatblygu cysylltiadau agosach rhwng Cymru a gweddill Ewrop? (OAQ10414) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynyddu Ymwybyddiaeth ymhlith Pleidleiswyr

**C26 Richard Edwards:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch datblygu ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr Cymru? (OAQ10388) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Goblygiadau yr Ewro i Gymru

**C27 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru â'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro i Gymru unwaith y gwneir defnydd llawn ohoni yn 2002? (OAQ10389) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Annog yr Economaidd Anweithgar i Ddychwelyd i'r Gweithlu

**C28 Janet Ryder:** Sut y bydd y Cynulliad, drwy ddatblygu a chydlynu materion cynhwysiant cymdeithasol, datblygu economaidd ac addysg a dysgu gydol oes, yn annog pobl Cymru yr ystyrir eu bod yn economaidd anweithgar i ddychwelyd i'r gweithlu? (OAQ10417) ***Tynnwyd yn ôl.***